



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy 2018-23
Llwyddiannau Allweddol**

Daeth y Prosiect â phartneriaeth gadarn ynghyd rhwng Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Swydd Amwythig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwyn Clwyd, Glandŵr Cymru a Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Cyflwynir y prosiectau allweddol yn y tabl isod; daeth y rhan helaeth o'r £2,000,000 o gyllid y prosiect o Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r gweddill gan Lywodraeth Cymru, CADW, Cadwyn Clwyd, Glandŵr Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Prosiect	Gwaith a gyflawnwyd	Cyfanswm y gwariant
Gwella'r Olygfa	<ul style="list-style-type: none">Gwaith sylweddol i wella'r coetir rhwng Traphont Ddŵr Pontcysyllte, hybu iechyd y goedwig ac adfer golygfeydd allweddol a oedd yn rhan o'r cofrestriad Safle Treftadaeth y Byd.Gwaith i wella chwech o safleoedd eraill, sef Pen y Pigyn, Rhaeadr y Bedol, Moel Tan y Coed, Caer Drewyn, Cefn Mawr a Throeon y Berwyn.	£55,692
Porthdy Dinas Brân	<ul style="list-style-type: none">Y cloddiad archaeolegol cyntaf a gofnodwyd.Adnewyddu tŵr y porthdy, a'i agor i'r cyhoedd am y tro cyntaf ers degawdau.	£142,111
Adfer Treftadaeth Ddiwydiannol	<ul style="list-style-type: none">Adnewyddu hen Gytiau'r Fforddolwyr yn Rhaeadr y Bedol a Basn y Fron.Adnewyddu adeilad y pwmp gwasgu yng ngerddi Plas Newydd.	£55,336
Cysylltu Cynefinoedd	<ul style="list-style-type: none">Rhoi grantiau i naw o berchnogion tir i wella cysylltiadau rhwng cynefinoedd ac adfer nodweddion traddodiadol o'r tirlun.Adnewyddu 1,917 metr o berthi.	£40,683

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi llyfr arfer orau ar gyfer Cynefinoedd Ffridd. 	
Wernffrwd, Llangollen	<ul style="list-style-type: none"> • Creu gwarchodfa natur newydd a hygyrch. (Yn gysylltiedig â'r feddygfa leol) 	£428,478
Gwasanaeth Bws Darluniadwy	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwasanaeth bws camu 'mlaen a chamu ffrwd am dri thymor yn llwyddiannus rhwng y prif gyrchfannau i ymwelwyr yn Nyffryn Dyfrdwy. 	£37,277
Gwella Hygyrchedd	<ul style="list-style-type: none"> • Creu llwybr newydd drwy'r goedwig rhwng cymuned Trefor a'r llwybr halio ar lan y gamlas, gan gynnwys deunydd dehongli'n manylu ynghylch arwyddocâd y safleoedd mewn hanes diwydiannol. • Creu tri o lwybrau cerdded â deunydd dehongli ynghyd â thafleni. 	£37,120
Hygyrchedd yn Rhaeadr y Bedol	<ul style="list-style-type: none"> • Creu golygfan newydd na fedrai'r cyhoedd ei gyrraedd o'r blaen. 	£33,394
Dehongli'r Tirlun	<ul style="list-style-type: none"> • Paneli dehongli newydd ar hyd yr 11 milltir o'r Safle Treftadaeth y Byd. • Cynhyrchu deunydd dehongli digidol, gan gynnwys taith rithiol yn hedfan dros Ddyffryn Dyfrdwy ar wahanol gyfnodau mewn amser; amgylcheddau Realiti Estynedig sy'n galluogi pobl i weld rhai o'r prif safleoedd yn yr ardal fel yr oeddent yn y gorffennol; cyfres o ffilmiau am fywydau Menywod Llangollen. • Creu camera obscura teithiol ar gyfer digwyddiadau dehongli. • Trefnu arddangosfa pan ddaw'r prosiect i ben ar gyfer mis Medi 2023. 	£140,058
Adfer y Glyn	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella hygyrchedd yn sylweddol yn y glyn ym Mhlas Newydd, Llangollen, gan gynnwys llwybrau, canllawiau a meinciau. • Adfer nodweddion treftadaeth, gan gynnwys yr hafoty ac adeilad y pwmp gwasgu. 	£48,787

Ymgysylltu â Phobl Ifanc	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu 13 o brosiectau mewn ysgolion lleol gan gynnwys amryw weithgareddau a themâu. • Cynnal 18 o ddiwrnodau Ceidwaid Ifanc. • Ymgysylltu â mwy na 1,300 o bobl ifanc yn ystod y prosiect. • Creu adnoddau addysgol ar gyfer ysgolion. 	£12,893
Celf wedi'i Ysbrydoli gan y Tirlun	<ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu pedwar o artistiaid preswyl i greu casgliad amrywiol o ryddiaith a barddoniaeth ym mlwyddyn 3. • Cynnal 15 o weithdai cymunedol a 10 o brosiectau mewn ysgolion dan arweiniad artistiaid, gan ymgysylltu â mwy na 250 o bobl. 	£53,717
Cymunedau Ymgysylltiol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal 90 o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod oes y prosiect. • Denu mwy na 2,300 o bobl i gymryd rhan yn nigwyddiadau Ein Tirlun Darluniadwy. • Denu mwy na 500 o bobl i wirfoddoli ar brosiectau Ein Tirlun Darluniadwy. 	£36,147
Estyn Allan	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal mwy na 30 o ddigwyddiadau estyn allan penodol gyda grwpiau targed. • Denu mwy na 300 o bobl yn y cynulleidfaoedd targed i gymryd rhan yn y digwyddiadau. 	£7,565 Cyfanswm £1,133,000